

Gweithio gyda'n Gilydd am Ddyfodol Disgleiriach



CYNLLUN CORFFORAETHOL 2020-2025

Mae cynllun corfforaethol yn amlinellu ein nodau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf, a sut y byddwn yn eu cyflawni.

MAE EIN CYNLLUN CORFFORAETHOL PRESENNOL YN DOD I BEN YN 2020.

NAWR MAE ANGEN CYNLLUN NEWYDD ARNOM AR GYFER Y 5 MLYNEDD NESAF, A HOFFEM GLYWED EICH BARN:

Amcan 1

**GWEITHIO GYDAG
A THROS
EIN CYMUNEDAU**

Rydym eisiau eich cynnwys chi a rhoi gwybod i chi am ein gwaith. Rydym eisiau newid y ffordd yr ydym yn gweithio i sicrhau ein bod yn barod ar gyfer y dyfodol. Rydym eisiau darparu gwasanaeth cwsmeriaid da sy'n bodloni gwahanol anghenion. Rydym am i fwy o bobl siarad Cymraeg. Rydym eisiau i'n staff allu gwneud eu gorau.

Amcan 2

**ATEGU DYSGU,
CYFLOGAETH A
THWF ECONOMAIDD
CYNALIADWY**

Rydym eisiau sicrhau bod pob person yn cael y cyfle i ddysgu mewn amgylcheddau modern. Rydym eisiau rhoi cefnogaeth, cyngor a chyfleoedd i bobl i'w helpu gyda swyddi, arian a sgiliau. Rydym eisiau gwneud y Fro yn lle gwell i fyw, gweithio a theithio ynddi.

Amcan 3

**CYNORTHWYO
POBL GARTREF
AC YN EU
CYMUNED**

Rydym eisiau i bawb fyw bywydau iach ac egniol ac am annog pobl i gerdded a beicio. Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod pawb yn cael y cymorth a chefnogaeth y mae eu hangen arnynt. Rydym eisiau cadw pobl yn ddiogel yn eu cartrefi a'u cymunedau a chael mynediad at dai o safon.

Amcan 4

**PARCHU, GWELLA
A MWYNHAU
EIN HAMGYLCHEDD**

Rydym eisiau gwarchod a gofalu am ein hamgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn lleihau gwastraff ac yn gostwng ein hallyriadau carbon ac yn lleihau'r effaith niweidiol ar yr amgylchedd. Byddwn yn cydweithio ag eraill i gynnal cyfleusterau lleol megis tai bach cyhoeddus, parciau a mannau chwarae.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y cynllun drafft, ewch i
www.valeofglamorgan.gov.uk/cy